

## **2020 Rhif (WG20-74)**

# **DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020**

## **Cyfarwyddyd Deddf y Coronafeirws 2020 Parhad Dros Dro (Awdurdodau Lleol) 2020**

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cyfarwyddyd)*

Bwriad y Cyfarwyddyd hwn yw darparu sicrwydd cyfreithiol i bawb sy'n ymwneud â'r sector addysg, gan gynnwys rhieni, athrawon, awdurdodau lleol a'r ysgolion eu hunain.

Mae'r Cyfarwyddyd hwn wedi ei wneud ar 11 Rhagfyr 2020 ac mae ganddo effaith o 14 Rhagfyr 2020 hyd at 22 Rhagfyr 2020.

Mae'n ei gwneud yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg i blant gweithwyr hanfodol a'r rheini y maent yn ystyried eu bod yn blant hygltwyf ym mlwyddyn 6 ac is, ac a fyddai fel arfer yn mynychu ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion.

Nid yw'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu addysg ar gyfer y plentyn hwnnw ar ddiwrnod penodol os oedd rhiant y plentyn wedi ei hysbysu cyn 27 Tachwedd 2020 y bydd yr ysgol y byddai'r plentyn fel arfer yn ei mynychu ar gau ar y diwrnod hwnnw.

## **2020 Rhif (WG20-74)**

# **DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020**

## **Cyfarwyddyd Deddf y Coronafeirws 2020 Parhad Dros Dro (Awdurdodau Lleol) 2020**

*Gwnaed* *11 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym* *14 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1) ac Atodlen 16 iddi, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Wrth roi'r Cyfarwyddyd hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw gyngor a roddwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Cymru sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, ac maent wedi eu bodloni bod rhoi'r Cyfarwyddyd yn weithred angenrheidiol a chymesur mewn ymateb i fynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws

### **Enwi, hyd effaith, cymhwyso a dehongli**

**1.** Enw'r Cyfarwyddyd hyn yw Cyfarwyddyd Deddf y Coronafeirws 2020 Parhad Dros Dro (Awdurdodau Lleol) 2020.

**2.** Mae gan y Cyfarwyddyd hyn effaith o ddechrau'r dydd ar 14 Rhagfyr 2020 hyd at ddiwedd y dydd ar 22 Rhagfyr 2020

**3.** Mae'r Cyfarwyddyd yn gymwys i ysgolion yng Nghymru.

**4.** Yn y Cyfarwyddyd hyn—

ystyr “blwyddyn 6” (“*year 6*”) yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 11 oed;

mae i “disgybl” yr un ystyr ag a roddir i “pupil” yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(1);

ystyr “grŵp blwyddyn” (“*year group*”) yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr “gweithwyr hanfodol” (“*critical workers*”) yw gweithiwr y mae’r awdurdod leol yn ei ystyried i fod yn weithiwr hanfodol ar ôl rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar adnabod plant gweithwyr hanfodol;

ystyr “perchennog” yw’r perchennog o fewn yr ystyr a roddir i “proprietor” yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996;

mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr un ystyr ag a roddir i “pupil referral unit” yn adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “ysgol” (“*school*”) yw ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion;

mae i “ysgol a gynhelir” yr un ystyr ag a roddir i “maintained school” yn adran 20 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i “ysgol feithrin a gynhelir” yr ystyr a roddir i “maintained nursery school” yn adran 22(9) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(2).

## Cyfarwyddyd Parhad Dros Dro

5. Yn ddarostyngedig i baragraff 6, rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddisgybl ysgol fynychu mangre ysgol rhwng 8:30a.m. a 4p.m. ar gyfer dibenion darparu addysg os—

- (a) yw’r disgybl, unai,
  - (i) yn blentyn i weithwyr hanfodol; neu
  - (ii) yn ddisgybl y mae’r awdurdod lleol yn ei ystyried yn briodol i’r disgybl fynd i’r ysgol oherwydd hyglwyfedd y disgybl, a
- (b) yw’r disgybl yn mlwyddyn 6 neu is.

6. Nid yw paragraff 5 yn gymwys mewn cysylltiad â disgybl ar ddiwrnod penodol—

- (a) os nad yw’r ysgol y mae’r disgybl yn ei mynychu fel arfer ar gau ar y diwrnod hwnnw, neu

---

(1) 1996 p. 56.  
(2) 1998 p. 31.

- (b) os oedd perchennog yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu fel arfer—
  - (i) wedi hysbysu rhiant y disgybl y bydd mangre'r ysgol ar gau ar y diwrnod hwnnw, a
  - (ii) wedi hysbysu'r rhiant am y cau cyn 27 Tachwedd 2020.

### **Methiant i gydymffurfio**

7. Mae unrhyw fethiant gan yr awdurdod lleol i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn yn orfodadwy drwy gais am waharddeb gan Weinidogion Cymru i'r Uchel Lys neu i'r Llys Sirol, heb rybudd.



*Mark Drakeford*  
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
11 Rhagfyr 2020